RHONDDA CYNON TAF

*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*

# *RHONDDA CYNON TAF*

**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Cwm Clydach, CF40 2XX**
**Dydd Mawrth, 24ain Mawrth, 2020 am 10.30 am**

**Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Blaen Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Rhif ffôn. 01443 424062)**

**Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 20 Mawrth 2020. Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau ai yn y Gymraeg neu yn y Saesneg y byddan nhw'n annerch.**

**Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk**

## MATERION I'W TRAFOD

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Chwefror 2020 a 20 Chwefror 2020.

**(Tudalennau 5 - 16)**

**3. RHAGLEN WAITH Y CABINET**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y rhestr arfaethedig o faterion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried yn ystod Blwyddyn 2019–20 y Cyngor.

**(Tudalennau 17 - 58)**

4. **ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n cyflwyno manylion Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018/19 y Cyngor

**(Tudalennau 59 - 118)**

5. **POLISI CAFFAEL – CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer y 'Polisi Caffael – Cyfrifoldebau Cymdeithasol'.

**(Tudalennau 119 - 130)**

6. **STRATEGAETH DWRISTIAETH DDRAFFT RHONDDA CYNON TAF**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Strategaeth Dwristiaeth ddrafft ar gyfer Rhondda Cynon Taf, ac yn argymell bod y Strategaeth yn cael ei chymeradwyo ar gyfer ymarfer ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol.

**(Tudalennau 131 - 170)**

7. **DATGANIAD O FWRIAD RHANBARTHOL CWM TAF AR GYFER CEFNOGI PLANT, POBL IFAINC A THEULUOEDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi bod ers datblygu Datganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Plant a Phobl Ifainc: 'Strategaeth Ranbarthol ar y cyd Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd'.

**(Tudalennau 171 - 176)**

8. **ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT – DIWEDDARIAD 2020**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd sydd wedi bod ers datblygu Datganiad o Fwriad Cwm Taf ar gyfer Plant a Phobl Ifainc: 'Strategaeth Ranbarthol ar y cyd Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant, Pobl Ifainc a Theuluoedd'.

**(Tudalennau 177 - 184)**

9. **CYNIGION I ATGYFNERTHU'R CONTINWWM O DDARPARIAETH AR GYFER DISGYBLION AG ANAWSTERAU CYMDEITHASOL, EMOSIYNOL AC YMDDYGIADOL AC ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL SYLWEDDOL**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n

amlinellu'r cynigion i newid a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 185 - 204)**

## 10. ADRODDIAD CYFLAWNIAD Y CYNGOR AM Y TRYDYDD CHWARTER

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol sy'n rhoi trosolwg o gyflawniad y Cyngor, yn ariannol ac yn weithredol, yn seiliedig ar naw mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 31 Rhagfyr 2019).

**(Tudalennau 205 - 228)**

## 11. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

"Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf."


## 12. CAIS THEATRAU RHCT I ADOLYGIAD BUDDSODDI CYNGOR CELFYDDYDAU CYMRU 2020 A BLAENORIAETHAU'R DYFODOL – ARGYMHELLION GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, sy'n cyflwyno argymhellion Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol i'r Cabinet. Roedd y Grŵp wedi trafod adroddiad ar gais arfaethedig Theatrau RhCT i Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru a'r hyn y mae'n bwriadu canolbwyntio arno yn y dyfodol.

**(Tudalennau 229 - 242)**

## 13. MATERION BRYS

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**<u>Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol</u>**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** David Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Richard Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Simon Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Andy Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Barrie Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Derek James, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Ffyniant a Datblygu